In page 230. of y^e Gramar before mention'd, we have this account of what a Pencerdd or master of music ought to understand.

Pencerdd a ddyly wybod Deugain Cwlwm, Pedair Colofn; Ugain Cwlwm Cydgerdd, Pedair Cadair, Deuddeg ar Hugain o Ganiadau, a Phedair Gosteg. a'i Mesurau igyd, a'u Rheolaeth, a Phedair ar Hugain o Ddifrau; a dosparth y mesurau megys y mae y Llyfr dosparth yn ddangos; a medru gwneu ~~thu~~ Cerdd ~~ei~~ ~~hunan~~ yn ddifai, ymarn Pencerddiaid; a medru ei holl ddosparthau, a Phob Gwân a Rhagwân, Pob Cynhwyslad a Gorphwyslad, a phob symudfa ar Gynhiadau a Chowirdannau, Cuddiedig ac Anghuddiedig; a'u Dangos yn warantedig o'i waith ei hun, yn Bencerddiaid ac yn athrawaidd: fal y bo Cyfarwydus i Bencerddiaid a doethion ei farnu ef, a'i ddewis yn Awdur, ac yn athro ar y Gelfyddyd.

Os Telynwr fydd y Cerddor, rhaid iddo wybod y Tri mwchwl odidawc, yr hwn a raddiwyd yn gyfuwch a'r Pedair Colofn; a Phob Colofn o'r Pedair a Raddiwyd yn ddeg Cwlwm bob un;

Y Tri mwchwl newydd a Raddiwyd yn Gyfuwch o rádd a'r Pedair Cadair, a'r Pedair Cadair yn Bum Cwlwm bob un.